# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 13 Gorffennaf 2011** |
| Amser: | **10:00 – 11:05** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_13_07_2011&t=0

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Mark Drakeford (Cadeirydd)**<br>**Mick Antoniw**<br>**Rebecca Evans**<br>**Janet Finch-Saunders**<br>**Vaughan Gething**<br>**Elin Jones**<br>**Darren Millar**<br>**Lynne Neagle**<br>**Lindsay Whittle**<br>**Kirsty Williams** |
| Tystion: | **Lesley Griffiths, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>**Gwenda Thomas, Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>**David Sissling, Llywodraeth Cymru**<br>**Rob Pickford, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Llinos Dafydd (Clerc)**<br>**Claire Morris (Clerc)** |

## 1. Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2. Deisebau a gyfeiriwyd at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol (10:00 – 10:10)

2.1 Trafododd y Pwyllgor ddwy ddeiseb a gyfeiriwyd gan y Pwyllgor Deisebau: P-03-292 Darparu Toiledau Cyhoeddus a P-03-301 Cydraddoldeb i'r Gymuned Drawsryweddol

2.2 Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn ailystyried y deisebau yn yr hydref, pan fyddai ei raglen waith yn fwy eglur.

2.3 Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Pwyllgor Deisebau i'w gynghori ynghylch trafodaethau a chasgliadau'r Pwyllgor.

## 3. Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Blaenraglen Waith (10:10 – 10:30)

3.1 Trafododd y Pwyllgor bynciau posibl ar gyfer ymchwiliad byr â ffocws pendant iddo i'w lansio dros doriad yr haf.

3.2 Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn lansio dau ymchwiliad:

- Cyfraniad fferyllaeth gymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru; a
- Lleihau'r risg o gael strôc.

3.3 Byddai cylch gorchwyl drafft ar gyfer y ddau ymchwiliad yn cael ei ddosbarthu i Aelodau mewn e-bost i'w gymeradwyo fel y gellir dechrau'r ymchwiliad dros yr haf.

3.4 Byddai'r Gwasanaeth Ymchwil yn paratoi papur cwmpasu ar ofal preswyl i'w ystyried yn yr hydref fel pwnc posibl ar gyfer ymchwiliad tymor hwy.

## 4. Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol
## 5. (10:30 – 11:00)

4.1 Croesawodd y Cadeirydd Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd A Gwasanaethau Cymdeithasol, a Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, i'r cyfarfod.

4.2 Amlinellodd y Gweinidogion eu blaenoriaethau ar gyfer yr agenda iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a gwnaethant ateb cwestiynau gan yr Aelodau am y blaenoriaethau hyn.

4.3 Derbyniodd y Pwyllgor gynnig y Dirprwy Weinidog i gyflwyno papur briffio ar y materion ynghylch gofal preswyl gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

4.4 Diolchodd y Cadeirydd i'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog am ddod i'r cyfarfod.

## Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.